

# Gweithiwr Cymdeithasol

## Gweithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso Graddfa G05 £35,412.00-£38,220.00

## Gweithiwr Cymdeithasol Lefel 3 (Wedi datblygu drwy Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus) Gradd 06 £39,152.00- £41,771.00

Lleoliad: Tŷ Dewi Sant, Ewlo gan weithio ar draws Sir y Fflint ac yn hybrid

Mae cyfle wedi codi i Weithiwr Cymdeithasol weithio yn un o ddau Dîm Ardal Pobl Hŷn Sir y Fflint. Bydd gennych lwyth achosion cymhleth ac amrywiol, gan helpu pobl i ddweud beth sy'n bwysig iddynt a'u cefnogi i gyflawni'r canlyniadau y maent am eu gweld.

Os ydych yn weithiwr cymdeithasol cymwysedig ac wedi ymrwymo i gefnogi pobl hŷn ar draws Sir y Fflint i leisio eu barn ac i fod mor annibynnol â phosibl, rydym am glywed gennych.

Mae gan Sir y Fflint hanes blaenorol gwych o gefnogi lles a datblygu gyrfaoedd eu gweithwyr trwy roi goruchwyliaeth unigol, reolaidd a chefnogol a chyfle i gael cefnogaeth gan gymheiriaid a hyfforddiant.

Mae’n rhaid i ddeiliaid y swydd fod wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru ac oherwydd bod y swydd hon yn arwain at gysylltiad gydag oedolion diamddiffyn byddwch hefyd yn destun gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Bydd gan ymgeiswyr llwyddiannus hawl i wyliau hael, pensiwn, gostyngiadau gyda channoedd o fanwerthwyr ledled y DU, polisïau ystyriol o deuluoedd a chydbwysedd bywyd a gwaith, cyfleoedd datblygu a llawer mwy.

I gael rhagor o wybodaeth neu sgwrs anffurfiol, cysylltwch â: I gael rhagor o wybodaeth neu sgwrs anffurfiol, cysylltwch â: Sian Jones / Rheolwr Tîm, Tîm Dwyrain Sir y Fflint / sian.jones3@flintshire.gov.uk